Enw



DARLLENWCH
Genesis 28: 1-22


*Mae'r stori yma'n sôn am:*
**Gofal Duw**

## Stori 3 Jacob yn cwrdd â Duw

Ydych chi wedi byw yn yr un tŷ erioed? Weithiau, mae pobl yn symud i dref neu bentref arall.

Dywedodd Isaac wrth ei fab, Jacob, am fynd i Haran at ei ewythr Laban a phriodi un o'i ferched. Gan fod ei frawd, Esau, yn bwriadu ei ladd, roedd Jacob yn meddwl y byddai'n syniad da symud i ffwrdd am dipyn!

Aeth Jacob ar ei daith. Pan ddaeth y nos, arhosodd mewn lle o'r enw Lus, a defnyddiodd garreg fel gobennydd. Cafodd freuddwyd ryfedd iawn. Breuddwydiodd ei fod yn gweld rhyw fath o risiau neu ysgol. Roedd y gwaelod ar y ddaear a'r rhan uchaf yn cyrraedd y Nefoedd.



Roedd angylion Duw yn mynd i fyny ac i lawr yr ysgol.

Siaradodd Duw â Jacob y noson honno.

Addawodd ei fendithio fe a'i deulu. Meddai, "Byddaf i gyda ti ac fe wnaf i dy amddiffyn di ble bynnag yr ei di. Byddaf yn bendithio'r holl genhedloedd trwot ti."

Pan fyddwn ni'n trystio Iesu, mae'n addo bod gyda ni bob amser.

**Lliwiwch y llun a tynnu llun y garreg o dan ben Jacob.**
**Lliwiwch y geiriau o'r Beibl**

# "Mae'n gofalu amdanoch."

**1 Pedr 5: 7**